



# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Hafod Mawddach**

**Cartref Preswyl Hafod Mawddach  
Marine Road  
Abermaw  
LL42 1NW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

15/06/2021

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.**

*Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*

*[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Hafod Mawddach

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleuedd cofrestredig	25
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	21 Chwefror 2020
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Ydy

## Crynodeb

Mae Hafod Mawddach yn nhref arfordirol Abermaw. Cyngor Gwynedd yw'r darparwr. Mr Aled Davies yw'r unigolyn cyfrifol ac mae rheolwr sy'n meddu ar y cymwysterau addas wedi'i gyflogi a gofrestrir â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae Tîm Sicrhau Ansawdd yr Awdurdod Lleol wedi bod yn gweithio gyda'r rheolwyr i wella safonau cyffredinol a threfniadau llywodraethu'r cartref. Mae hyn yn cynnwys helpu i adolygu cynlluniau personol ac archwiliadau.

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a gânt gan Hafod Mawddach. Nodwyd bod y gweithwyr gofal yn garedig a bod y staff cyfeillgar a gofalgwr yn eu trin ag urddas a pharch. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth dda am sut i ddiwallu anghenion y bobl. Mae asesiadau risg ar waith i ddiogelu'r bobl a'r staff. Mae'r safle yn ddiogel ac yn hygyrch, ac mae estyniad i'r adeilad bron yn barod. Bydd yr estyniad newydd yn darparu llety ychwanegol i bobl sy'n byw gyda dementia.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr. Mae'r staff yn dilyn proses recriwtio, gan gynnwys yr holl wiriadau sydd eu hangen, ac yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen i gyflawni eu rolau. Caiff sesiynau goruchwylio ac arfarniadau eu cynnal bellach i sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n dda.

## Llesiant

Dyweddod y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn ymateb i'w hanghenion a'u dewisiadau. Mae'r bobl yn gallu ymlacio yng nghwmni'r gweithwyr gofal sy'n cyfathrebu mewn ffordd gyfeillgar a gofalggar, gan ryngweithio â nhw'n uniongyrchol. Mae trafodaethau â'r staff yn dangos eu bod yn ymwybodol o anghenion y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Caiff y bobl gyfleoedd i gael cymorth gan staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol â'r bobl gan ddilyn y canllawiau presennol mewn perthynas â defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE).

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu parhau i wneud eu gweithgareddau dyddiol a threulio eu hamser yn y ffordd y dymunant. Roedd y lluniau a welsom yn dangos y bobl yn mwynhau'r cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r bobl wedi cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau dros y ffôn neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae ymweliadau â'r cartref wedi cael eu trefnu gan ddilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dywedodd y bobl y byddent yn siarad â'r staff pe bai unrhyw broblemau ganddynt, ac y byddai'r staff yn gwrando arnynt.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag y risg o niwed. Caiff asesiadau risg unigol eu cynnwys mewn cynlluniau personol a chânt eu hadolygu fel sy'n ofynnol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gwybod pa gamau i'w cymryd os byddant yn pryderu am y bobl/unigolyn. Gwelsom gofnodion hyfforddi'r staff a oedd yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant i sicrhau diogelwch y bobl, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu, codi a chario a meddyginiaeth.

Caiff y bobl gymorth gan y gweithwyr gofal i fod mor iach â phosibl. Gwelsom y bobl yn cael cymorth gan y staff, a dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod y gofal a gânt yn dda. Mae'r bwydlenni sydd i'w gweld yn dangos bod dewis da ar gael ar gyfer pob pryd bwyd. Dywedodd y cogydd wrthym ei fod yn ymwybodol o anghenion deietegol y bobl hynny sydd ag unrhyw alergeddau a bod anghenion o ran deietau arbennig yn cael eu cofnodi a'u diwallu. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi'r bwyd. Caiff y bobl eu hatgyfeirio yn briodol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac mae'r nyrsys ardal wedi parhau i gynnal ymweliadau fel sy'n ofynnol yn ystod y pandemig.

Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r amgylchedd wedi'i gynllunio'n dda ac mae amrywiaeth o ardaloedd yn y gwasanaeth lle gall y bobl ddewis treulio eu hamser.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol ac asesiadau risg sy'n adlewyrchu i raddau helaeth sut yr hoffent gael eu cefnogi. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg wrthi'n cael eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys dewisiadau a dyheadau'r bobl, ac i hysbysu'r staff am unrhyw risgiau posibl. O'r broses asesu gychwynnol i gynlluniau gofal, mae'r gwasanaeth yn dylunio ei ddarpariaeth gofal a chymorth. Mae'n gwneud hyn drwy ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a/neu aelodau o'u teulu. Mae cofnodion dyddiol unigol yn dangos bod y bobl yn cael gofal a chymorth yn ôl y cyfarwyddiadau yn eu cynlluniau personol. Mae'r wybodaeth yn y cynlluniau personol a'r ddogfennaeth ofal yn ailadroddus mewn manau. Mae'r ddogfen "My Life, My Care" (Fy Mywyd, Fy Ngofal) yn nodi y dylid ei gwblhau 48 awr ar ôl derbyn unigolyn. Gwelsom fod y dogfennau hyn wedi cael eu cwblhau fel rhan o'r broses o adolygu'r ddogfennaeth, gan gynnwys dogfennau'r bobl a oedd wedi bod yn byw yn y cartref ers nifer o flynyddoedd. Gwelwyd un dyddiedig 12 Mai 2021, ond roedd yr unigolyn wedi cael ei dderbyn i'r cartref ar 18 Awst 2019. Dylid llofnodi a dyddio'r ddogfennaeth ar ddiwrnod cwblhau'r ddogfennaeth. Dylid adolygu'r ddogfennaeth i sicrhau ei bod yn cynnwys digon o fanylion i roi gwybodaeth i'r staff a'u galluogi i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, a helpu unigolion i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Caiff y bobl ofal o ansawdd da, ac mae'r gweithwyr gofal sy'n rhoi cymorth iddynt yn ymwybodol o'u dymuniadau personol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoff o'r staff a oedd yn gofalu amdanynt. Mae'r staff yn siarad â'r bobl mewn modd parchus a gofalgar. Mae'r bobl yn parhau i ddilyn eu trefn ddyddiol a gwneud eu gweithgareddau dyddiol, ac ni chaiff y gwaith adeiladu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd fawr ddim effaith arnynt. Mae'r lluniau a welsom yn ategu hyn. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd y bobl a'r gweithwyr gofal yn eistedd yn yr awyr agored yn mwynhau gwahanol ddiodydd yn yr heulwen.

Mae prosesau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae'r staff yn ymwybodol o ba mor bwysig yw gwneud atgyfeiriadau perthnasol at yr awdurdod lleol pe bai unrhyw bryderon ganddynt am y bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod y staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Ers pandemig y coronafeirws, mae wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i'r staff am y rhagofalon ychwanegol sydd eu hangen. Caiff arferion diogel eu cynnal a darperir y PPE priodol i'r staff er mwyn iddynt ddarparu gofal i'r bobl yn ddiogel. Gwnaeth y gweithwyr gofal gadarnhau bod ganddynt ddigon o PPE a dywedodd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu bod yn teimlo'n ddiogel o ystyried yr arferion presennol sydd ar waith. Mae ymweliadau â'r cartref wedi parhau i gael eu cynnal yn ystod y pandemig gan ddilyn canllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru a pholisi ymweliadau'r cartref, sydd wedi cael ei

---

adolygu yn ystod y pandemig. Gwelsom unigolion ac aelodau o'r staff yn gwisgo lliw/gorchuddion ewinedd. Mae angen i'r darparwr gyfeirio at ganllawiau rheoli heintiau cyfredol a gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn eu dilyn er mwyn atal y risg o heintiau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn rhesymol ddiogel, cartrefol a chynnes. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno a'u dodrefnu i safon dda, ac mae eiddo ac eitemau personol y bobl o'u cwmpas. Mae cymhorthion ac addasiadau ar gael i helpu'r bobl i fynd i bob rhan o'r cartref, gan gynnwys lifft a chymhorthion symudedd. Mae polisi drws ar glo ar waith a gwnaeth y gweithwyr gofal wirio ein statws COVID-19 a chadarnhau pwy oeddem cyn i ni ddod i mewn i'r adeilad. Gofynnir i ymwelwyr â'r cartref ddilyn y canllawiau cyfredol. Yn ogystal ag ystafelloedd gwely unigol, wedi'u personoli, mae lolfeydd ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf i'r bobl gael treulio eu hamser ynddynt. Mae un rhan o'r adeilad na chaiff ei defnyddio ar hyn o bryd o ganlyniad i waith adeiladu mawr sy'n mynd rhagddo er mwyn creu uned dementia arbenigol.

Gall y bobl fod yn hyderus bod trefniadau rheoli heintiau effeithiol ar waith. Mae polisi rheoli heintiau ar gael i'r holl staff ei ddilyn, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau. Mae trefniadau glanhau ar waith i leihau achosion o groeshalugi er mwyn helpu i atal a rheoli heintiau. Mae ardaloedd penodol ar gyfer cyfarpar diogelu personol (PPE) yn y cartref i roi cyfle i'r bobl a'r staff gael gafael ar PPE.

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau ar waith er mwyn gorchwyllo'r gwasanaeth. Mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth ac mae swyddogion yr awdurdod lleol yn cynnig cymorth er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cefnogi'r gwasanaeth a'r rheolwyr drwy'r pandemig diweddar, drwy alwadau ffôn a chyfarfodydd rhithwir. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cyfrifol siarad â'r bobl a'r staff o leiaf bob tri mis. Nid yw hyn wedi digwydd bob tri mis yn ystod y pandemig. Mae rheolwr ardal yr awdurdod lleol yn cefnogi'r rheolwr a'r staff drwy gynnal ymweliadau rheolaidd a chysylltu drwy alwadau ffôn/cyfarfodydd rhithwir. Mae'r rheolwr yn anfon gwybodaeth at yr unigolyn cyfrifol am ansawdd y gofal fel y bydd modd iddo gyflawni ei rôl mewn perthynas ag adolygu ansawdd y gofal a roddir. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth â digon o staff sy'n addas ac yn meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion. Gwelsom fod y cofnodion yn dangos bod y gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio. Mae proses dethol a fetio ar waith gan y darparwr, gan gynnwys proses ar gyfer cael geirdaon. Dylid cael geirdaon cymeriad ychwanegol pan fydd buddiannau'n gwrthdaro yn y broses gwneud cais / recriwtio. Nid oes llawer o hyfforddiant wedi cael ei gynnal ers y pandemig o ganlyniad i gyfyngiadau'r llywodraeth. Mae e-ddysgu wedi bod yn mynd rhagddo'n barhaus ac mae tystiolaeth bod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer 2021. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ar gofnodi a hysbysu. Mae'r hyfforddiant a drefnir yn y dyfodol yn cynnwys hyfforddiant diogelu a hyfforddiant dementia. Mae cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwyllo ffurfiol wedi ailgychwyn ond gellid sicrhau bod y rheini'n digwydd yn fwy aml. Mae rotas staff yn dangos bod digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Caiff y staff eu hanfon i weithio ar un o'r ddau lawr yn y cartref. Mae'r staff yn hyblyg o ran rhoi cymorth i bobl ym mhob rhan o'r cartref yn dibynnu ar ddewisiadau unigolion a sut maent am dreulio eu hamser. Dywedodd y staff fod y rheolwr a'r dirprwy reolwr yn eu cefnogi. Mae'r rheolwr ardal yn cefnogi'r rheolwr a'r staff.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'n glir at bwy y mae'r gwasanaeth wedi'i anelu a sut y caiff ei ddarparu. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth a sut i wneud cwyn. Mae swyddogion Sicrhau Ansawdd yr ALI wedi bod yn cefnogi'r tîm rheoli a'r staff yn Hafod Mawddach, gan gynnwys eu helpu gyda dogfennaeth gofal personol, archwiliadau a data llywodraethu misol. Mae'r broses hon yn parhau i fynd rhagddi.



**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.  
Wedi ei gyflawni**

**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.  
Heb ei gyflawni**

Dim	
-----	--

**Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth**

Dim	
-----	--

**Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau**

Dim	
-----	--

**Dyddiad Cyhoeddi 14/09/2021**